# COFNODION CYFARFOD BWRDD TYFU CANOLBARTH CYMRU / GROWING MID WALES BOARD A GYNHALIWYD DROS ZOOM, DDYDD MAWRTH, 10 TACHWEDD 2020

YN BRESENNOL

**Aelodau Cabinet Cyngor Sir Ceredigion:**
Cynghorydd Ellen ap Gwynn, Arweinydd Sir Ceredigion ac Aelod Cabinet dros Berfformiad Polisi, Partneriaethau a Gwasanaethau Democrataidd **(Cadeirydd) (EAG)**
Cynghorydd Dafydd Edwards: Aelod Cabinet dros Briffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol, ynghyd â Thai **(DE)**
Cynghorydd Catrin Miles: Aelod Cabinet dros Wasanaethau Dysgu a Dysgu Gydol Oes **(CM)**
Cynghorydd Rhodri Evans: Aelod Cabinet dros yr Economi ac Adfywio **(RE)**
Cynghorydd Gareth Lloyd, Aelod Cabinet dros Gyllid a Gwasanaethau Caffael a Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd **(GL)**

**Aelodau Cabinet Cyngor Sir Powys:**
Cynghorydd Rosemarie Harris Arweinydd Cyngor Sir Powys **(RH)**
Cynghorydd Aled Davies, Deiliad y Portffolio Cyllid, Cefn Gwlad a Thrafnidiaeth **(AD)**
Cynghorydd Phyl Davies, Deiliad y Portffolio Addysg ac Eiddo **(PD)**
Cynghorydd Heulwen Hulme, Deiliad Portffolio yr Amgylchedd **(HH)**
Cynghorydd Iain McIntosh, Deiliad y Portffolio Tai, Cynllunio ac Adfywio Economaidd **(IM)**

Fiona Stewart, Cadeirydd Grŵp y Strategaeth Economaidd **(FS)**

**Swyddogion:**
**Eifion Evans,** Prif Weithredwr, Cyngor Sir Ceredigion **(EE)**
Caroline Turner, Prif Weithredwr, Cyngor Sir Powys **(CT)**
Nigel Brinn, Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Economi a'r Amgylchedd, Cyngor Sir Powys **(NB)**
Clive Pinney, Cyfreithiwr y Cyngor, Cyngor Sir Powys **(CP)**
Carwyn Jones-Evans, Rheolwr Strategol Bargen Twf Canolbarth Cymru **(CJE)**
Paul Griffiths **(PG)**
Stephen Johnson, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael, Cyngor Sir Ceredigion **(SJ)**
Russell Hughes-Pickering, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Yr Economi ac Adfywio, Cyngor Sir Ceredigion **(RHP)**
Arwyn Davies, Rheolwr Corfforaethol Cyngor Sir Ceredigion **(AD)**
Sonia Davies, Cyngor Sir Ceredigion **(SD)**
Elin Prysor, Cyngor Sir Ceredigion **(EP)**
Patricia Armstrong, Cyngor Sir Ceredigion **(PA)**

Llinos Williams, Cyngor Sir Ceredigion (Cyfieithydd)

| 1. | CROESO AC YMDDIHEURIADAU / WELCOME AND APOLOGIES |
|---|---|

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

| 2. | DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL / DECLARATIONS OF PERSONAL INTEREST |
|---|---|

Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau.

| 3. | COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF 23/07/20 / MINUTES OF THE LAST MEETING 23/07/20 |
|---|---|

Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod diweddaf y Bwrdd a gynhaliwyd ar 23 Gorffennaf 2020 yn gofnod cywir.

| 4. | BARGEN DWF: DIWEDDARIAD CYNNYDD / GROWTH DEAL: PROGRESS UPDATE |
|---|---|

Cafwyd diweddariad gan CJE am y cynnydd a sicrhawyd ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd a gynhaliwyd ar 23 Gorffennaf. Ym mis Hydref, cafwyd yr ymateb ffurfiol ar y cyd gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ynghylch dogfen y Weledigaeth ar gyfer Tyfu Canolbarth Cymru, a gyflwynwyd ym mis Mai. Roedd y llythyr gan Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru ac Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru yn derbyn yn glir bod yr achos wedi cael ei wneud dros gael Bargen Dwf i Ganolbarth Cymru, a chafwyd cadarnhad cadarnhaol o'r dull a fabwysiadwyd gan y rhanbarth hyd yn hyn a chadarnhad o'r ffordd ymlaen.

Byddai swyddogion yn cyfarfod gyda gweision sifil o'r ddwy lywodraeth ar 11 Tachwedd i ddatblygu cwmpas a manylion sylfaenol cytundeb Penawdau'r Telerau. Rhagwelwyd y byddai'r broses er mwyn cytuno ar Benawdau'r Telerau fel a ganlyn:

- Swyddogion i gwmpasu'r manylion cychwynnol a'r cytundeb drafft (yn gynnar ym mis Tachwedd).
- Aelodau i fynegi safbwynt yng nghyfarfod nesaf y Cydbwyllgor/Bwrdd a gynhelir ar 4 Rhagfyr 2020 (os bydd swyddogion yn gwneud cynnydd teirochrog da).
- Cyfarfod gweinidogol gyda'r ddau Arweinydd (gweithgarwch cwmpasu i ddigwydd yn syth ar ôl cyfarfod y Bwrdd ar 4 Rhagfyr) – i gytuno/llofnodi.

| 5. | BARGEN DWF: DATBLYGIAD Y PORTFFOLIO / GROWTH DEAL: PORTFOLIO DEVELOPMENT |
|---|---|

Esboniodd CJE mai diben yr Achos Busnes Portffolio oedd cynnig trosolwg o Fargen Dwf Canolbarth Cymru a'i Phrosiectau/Rhaglenni cyfansoddol posibl. Roedd yn ddogfen fyw a fyddai'n esblygu gydag amser ac yn cael ei diweddaru'n rheolaidd wrth i raglenni a phrosiectau ddatblygu. Byddai'n sicrhau bod adolygiad parhaus o'r hyn y mae'r Fargen Dwf yn ei gyflawni yn unol â'i holl hamcanion. Yn ogystal, byddai'n sicrhau bod y Fargen Dwf yn gallu ymateb i gyfleoedd yn yr 8 Blaenoriaeth Strategol a nodwyd yn y strategaeth o fewn dogfen y Weledigaeth ar gyfer Tyfu Canolbarth Cymru.

Roedd Achos Busnes y Portffolio yn dilyn strwythur y Model Pum Achos ac fe'i ddatblygwyd gyda chymorth Joe Flanagan, y prif awdurdod yn y maes hwn. Byddai'n rhaid i bob prosiect ddangos y byddent yn cyfrannu at dyfu'r economi a swyddi.

Roedd swyddogion yn llunio drafft cyntaf y Rhestr-Hir yn cynnwys yr holl raglenni, prosiectau a gweithgarwch hysbys a godwyd yn y rhanbarth trwy gydol y gwaith ymgysylltu a gynhaliwyd dros y flwyddyn ddiwethaf. Ceir un frawddeg a theitl am bob buddsoddiad a nodwyd ar hyn o bryd, ac amser mympwyol wedi'i gategoreiddio (byr, canolig, hir), ynghyd ag asesiad o ba mor bwysig ydyw i'r uchelgais ranbarthol a nodir yn y strategaeth (Rhaid, Dylid, Gellid). Pwysleisiodd CJE mai rhestr-hir gychwynnol yw hon, nad yw'n derfynol ar yr adeg hon o'r broses, ac y byddai modd ychwanegu iddi a'i diwygio wrth wneud gwaith ymgysylltu pellach arni. Byddai'n rhaid i bob prosiect ddangos y byddent yn cyfrannu at dyfu'r economi neu swyddi.

Croesawodd y Bwrdd y cynnydd a sicrhawyd hyd yn hyn. Holodd yr aelodau am weithgarwch ymgysylltu gydag ESG a'r gymuned fusnes a chadarnhawyd y byddai camau'n cael eu cymryd i ymgynghori ag ESG pan fyddai hynny'n briodol.

| | |
|---|---|
| **6.** | **BWRDD TCC: DIWEDDARIAD AR Y GYLLIDEB REFENIW 2020/21 / GMW BOARD: UPDATE ON REVENUE BUDGET 2020/21** |

Nododd y Bwrdd yr adroddiad am y gyllideb refeniw.

| | |
|---|---|
| **7.** | **PARTNERIAETH SGILIAU A DYSGU RHANBARTHOL (PSDRH) / REGIONAL LEARNING AND SKILLS PARTNERSHIP (RLSP)** |

Ystyriodd y Bwrdd yr adroddiad, gan nodi sut y byddai Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru (y “PDSRh”) yn cael ei sefydlu, sut y byddai'n cael ei llywodraethu a'i rheoli, ei gweledigaeth, ei chenhadaeth a'i hamcanion a'i Chylch Gorchwyl.

Gweledigaeth PDSRh oedd cyd-fynd gyda'r sectorau cyhoeddus a phreifat er mwyn rhoi sylw i broblemau gyda'r cyflenwad a'r galw am weithlu ystwyth effeithiol, sy'n meddu ar y lefel gywir o ran sgiliau i ddenu mewnfuddsoddiad i Ganolbarth Cymru a gwella rhwydweithiau cyfathrebu rhwng sectorau er mwyn

deall a nodi'r llwybrau dysgu a gyrfa yn gyflogaeth hirdymor a phriodol ar gyfer dinasyddion Canolbarth Cymru.

Byddai PDSRh yn cael ei llywodraethu gan Fwrdd a fyddai'n un o dri bwrdd cynghori sy'n cyfrannu at Gyd-bwyllgor Tyfu Canolbarth Cymru. Nodwyd aelodaeth arfaethedig y Bwrdd gan y Bwrdd, a fyddai'n sicrhau y byddai cynrychiolaeth gref o fyd busnes ac ar ran cyflogwyr, ac fe'i croesawodd.

**PENDERFYNIAD: Cymeradwyo'r Cylch Gorchwyl ar gyfer Bwrdd PDSRh.**

| 8. | LLYWODRAETHU / GOVERNANCE |
|---|---|

Nododd y Bwrdd y byddai angen diwygio'r Cytundeb Rhyng-Awdurdod er mwyn adlewyrchu'r newidiadau i Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru (y "PDSRh") a gytunwyd gan y Bwrdd. Byddai angen i'r ddau Gabinet priodol gymeradwyo'r newidiadau hyn.

**PENDERFYNIAD: argymell i Gabinetau y ddau Awdurdod bod y Cytundeb Rhyng-Awdurdod yn cael ei ddiwygio er mwyn cynnwys Atodlen 4 newydd (fel y nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad) yn yr IAA er mwyn disodli'r Atodlen 4 wreiddiol.**

| 9. | UNRHYW FATER ARALL / ANY OTHER BUSINESS |
|---|---|

Dim.

| 10. | DYDDIADAU CYFARFODYDD NESAF / DATES OF FUTURE MEETINGS |
|---|---|

4 Rhagfyr 2020 am 14.00.

**Cynghorydd Sir Ellen Ap Gwynn**
**Cadeirydd**